

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

4ydd Tachwedd, 2020.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 9fed Tachwedd, 2020** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

RHAGLEN

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn ffurflenni.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR:

(a) GYNHALIWYD 12fed HYDREF, 2020

Copi'n amgaeedig.

“A”

I drafod materion yn codi o'r cofnodion.

(b) Cyfarfod Arbennig gynhaliwyd 23ain Hydref, 2020

Copi'n amgaeedig.

“B”

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

(a) Cais C20/0749/32/LL – dymchwel tri modurdy a chodi un modurdy yn eu lle at ddibenion preifat – I Pentre, Botwnnog.

(b) Cais C20/0698/32/DT – agor mynedfa gerbydol newydd, ymestyn gardd ddomestig a gwaith peirianyddol i newid lefelau tir gan gynnwys creu gofod parcio newydd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn (cynlluniau diwygiedig).

(c) Cais C20/0508/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig ar gyfer storio amaethyddol a da byw – Y Glyn, Penygroeslon.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

8. **UN LLAIS CYMRU**

Cais i enwebu cynrychiolwyr ar Un Llais Cymru, Ardal Arfon/Dwyfor.
Cynrychiolwyr presennol – Cyngorydd David Brunelli a'r Cyngorydd Elin Hughes.

9. **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

Llythyr Arweinydd Tim Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd ynglyn a'r uchod – gellir gweld y linc ar gyfer cael mwy o wybodaeth yn y llythyr.

Copi'n amgaaedig.

“C”

10. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad a ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

Tyddyn Sachau £200 (noder fod cais wedi ei wneud am grant i AHNE)
Cyngor Gwynedd – archwilio mewnol - £174.

11. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYNY I 3 Iain MAWRTH, 2020**

Adroddiad yr Archwilwyr (os i law).

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli (post)
Gwenan Griffith (e-bost)
Glyn Roberts (e-bost)
Glenys Williams (post)

Carys H. Evans (e-bost)
Dylan Parry Jones (post)
Michael Strain (e-bost)
Siôn Williams (e-bost)

Elin Hughes (e-bost)
Ifor Owen (post)
Carys E. Williams (post)